# Imatinib fel triniaeth gynorthwyol ar gyfer tiwmorau stromatig gastroberfeddol (adolygiad o arfarniad technoleg NICE 196)

26 Tachwedd 2014

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir imatinib (Glivec) fel triniaeth bosibl am hyd at dair blynedd i bobl yr oedd ganddynt diwmorau stromatig gastroberfeddol a gafodd eu tynnu drwy lawdriniaeth, lle ceir risg uchel y gallai'r tiwmor ddychwelyd.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oedd gennych diwmorau stromatig gastroberfeddol a gafodd eu tynnu drwy lawdriniaeth ond bod tebygolrwydd uchel y byddant yn dychwelyd, a bod eich meddyg yn credu mai imatinib yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai imatinib i'w ddefnyddio fel triniaeth gynorthwyol fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd imatinib nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd imatinib oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Mae tiwmorau stromatig gastroberfeddol yn fath o ganser a all ddigwydd unrhyw le yn y llwybr treulio, ond mae'r rhan fwyaf o diwmorau o'r fath yn dechrau yn y stumog neu'r coluddyn bach.

Mae imatinib (Glivec) yn gyffur sy'n arafu neu'n atal twf a lledaeniad y tiwmor. Ar ôl llawdriniaeth, gellir defnyddio imatinib fel triniaeth 'gynorthwyol' sy'n anelu at atal y canser rhag dychwelyd.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- GIST Support UK, 0300 400 0000, www.gistsupportuk.com
- Sefydliad Canserau Mwy Anghyffredin, 0800 334 5551, www.rarercancers.org.uk
- Sarcoma UK, 020 7250 8271, www.sarcoma.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-0926-1